# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (199)

# Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 2 Mai 2006

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

Arweiniodd y Llywydd deyrngedau coffa i Peter Law AS, AC

..............................................................

**2.51pm**
Gofynnodd y Llywydd i'r Aelodau sefyll am funud o dawelwch

.........................................

**2.52pm**
Cynnig trefniadol
Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol yn unol â Rheol Sefydlog 6.19 i ohirio'r Cwestiynau i'r Prif Weinidog, y Datganiad Busnes a'r cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 y Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006 a'r Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i

Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru) 2006 tan brynhawn yfory (3 Mai). Bydd gweddill yr eitemau busnes ar gyfer prynhawn heddiw yn cael eu haildrefnu yn ystod y tair wythnos nesaf, fel y nodir ar y Datganiad Busnes a fydd yn cael ei gynnig gan y Trefnydd yn y Cyfarfod Llawn yfory.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
Cytunwyd ar y cynnig trefniadol

............................................................

Eitem 1 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

............................................................

## Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

............................................................

## Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth
## Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM2990 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006;
(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006.

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru)2006 yn cael ei wneud yn unol ag:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006;
(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006.

..............................................................

## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv)

**NDM2991 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 24 Ebrill 2006.

**NDM2992 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 24 Ebrill 2006.

*Noder: Ni osodwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau ynghylch y Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

............................................................

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 25 rhan 3

**NDM2993 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion (Diwygio) 2006 (copi Saesneg yn unig) y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2006 ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2006.

............................................................

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Diogelu Dwr Rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 25 rhan 3

**NDM2994 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Diogelu Dwr Rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2006 (copi Saesneg yn unig) y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2006 ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a

osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2006.

............................................................

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006

**NDM2995 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006.

**NDM2996 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006;
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2006, ac
c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006.

............................................................

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau

# Trosiannol) (Cymru) 2006

**NDM2997 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006.

**NDM2998 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2000 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2006.

..............................................................

# Eitem 9 - Dadl wedi’i henwebu gan Blaid Cymru

**NDM2999 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn mynegi ei bryder difrifol ynghylch methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i anrhydeddu ymrwymiadau ac addewidion allweddol y Maniffesto a oedd yn sail ar gyfer eu hethol.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn gresynu at dro pedol mwyaf diweddar Llywodraeth y Cynulliad yn methu ag anrhydeddu’r ymrwymiad yn eu maniffesto i ddarparu gofal cartref rhad ac am ddim ar gyfer pobl anabl.

............................................................

Daeth y cyfarfod i ben am 2.53pm

................................................

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 3 Mai 2006

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

- Ebrill 26, 2006 [back to top]

Document(s)

- LD5575 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y Pwyllgor Archwilio Ariannu Gardd Fotaneg

Genedlaethol Cymru

- LD5576 - Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 10 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

- LD5577 - Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2006

- LD5578 - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2006

Ebrill 24, 2006 [back to top]

Document(s)

- LD5573 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006

- LD5574 - Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar y Contract ar gyfer darparu gwasanaeth Meddygon Teulu tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd.

Ebrill 13, 2006 [back to top]

Document(s)

- LD5572 - A yw’r GIG yng Nghymru yn ymdopi o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael iddo?

Ebrill 12, 2006 [back to top]

Document(s)

- LD5571 - Adroddiad Pwyllgor Yr Amgylchedd, Cynllunio A Chefn Gwlad Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru)2006

Ebrill 07, 2006 [back to top]

Document(s)

- LD5562 - Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006

- LD5563 – The Animal By-Products (Wales) Regulations 2006 - Regulatory Appraisal – Dim Copi Cymraeg Ar Gael

- LD5564 – Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) (Diwygio) 2006

- LD5565 – The Fish Labelling (Wales) (Amendment) Regulations 2006 - Regulatory Appraisal – Dim Copi Cymraeg Ar Gael

- LD5566 – Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006

- LD5567 – The Education (National Curriculum for Wales) (Disapplication of Science at Key Stage 4) Regulations 2006 - Regulatory Appraisal – Dim Copi Cymraeg Ar Gael

- LD5568 – Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006

- LD5569 – The Plant Health (Phytophthora ramorum) (Wales) Order 2006- Regulatory Appraisal – Dim Copi Cymraeg Ar Gael

- **LD5570 - Gorchymyn Deddf Addysg 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006**